Y Cristingl!

Yr oren hwn ar gledr llaw
Yw ffrwyth y ddaear hael, a ddaw
Â'i hanrheg hi i deulu dyn;
Y ffrwyth yw'r ddaear gron ei hun.

Y cariad nad yw byth ar drai
Sydd yn cofleidio'r byd a'i fai
Yw'r rhuban coch o Galfari
Sy'n dal yn dynn amdanom ni.

Anrhegion melys pedwar ban
Drwy'r pedwar tymor yw ein rhan,
A phan mai du fydd ein gorwelion
Cawn gynnau cannwyll yn y galon,

A chynnau gobaith gwyn o hyd
Yng nghefn nos gaeaf oer ein byd;
Awn â'n Cristingl tua thref
Ac yn ein llaw bydd lluniau'r nef.

Myrddin ap Dafydd